Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Rhif 77 Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn • Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn Gwanwyn 2003

## Dryllio'r Delwau

### Y Gwir am John Elias yn ôl Bob Owen

Yn fy ysgrif gyntaf ceisiais ddangos ymddygiad John Elias a'i ymgynghreirwyr yn erbyn Thomas Jones o Ddinbych, ynglŷn ag Athrawiaeth y Pryn-edigaeth. O gofio mai Thomas Jones a fu fwyaf cyfrifol o neb am ffurfio'r Methodistiaid yn gorff o enwad yn 1811 rhyfedd yw meddwl am ddigywilydd-dra rhyw bitw bach o ddiwinydd fel John Elias tuag at hwnnw. Fe gynhyrfa fy ymysgaroedd o'm mewn. Y mae'n wir i John Elias gytuno yn dawel hollol efo amryw eraill yn 1811 i ymneilltuo o'r Eglwys Sefydledig; ond rai blynyddoedd yn ddiweddarach nid oedd neb uwch ei gloch, yn edliw i awdurdodau'r Corff am wrthwynebu yr Eglwys Sefydledig. Ond gadawaf yr hanes hwnnw, i'w drafod mewn llith arall.



*John Elias.*

Y tro hwn cyfyngaf yr hanes i'w ymddygiad at Morris Roberts, Brynllin, Trawsfynydd, gŵr dawnus o bregethwr gyda'r M.C. ym Meirionnydd, a aned yn Llechwedd Ystrad, plwyf Llangywair, Meirionnydd, Galanmai 1977, ond a ddygwyd i fyny yn ystod ei flynyddoedd cyntaf yn Llanuwchllyn a'r Parc hyd nes y bu raid iddo symud o'r ardal oherwydd caledi yr amseroedd i Brynllin, ym mherfeddion mynyddoedd Trawsfynydd, lle yr oedd ewythr iddo, cefnder i'w fam, o'r enw Harri Pugh yn byw.

Yno y digwyddodd iddo rai o bethau pwysicaf ei fywyd; a'r adeg hyn aeth Edward Roberts, tad Morris Roberts i'r America, ac yntau yn gweithio'n galed i'w helpu i ymfudo. Bu'n dilyn moddion yn Penstryd efo'r Annibynwyr ac ym Muarthyre. Yn fuan wedi ymfudo ei dad, cyffrowyd meddwl Morris Roberts o dan bregeth Dafydd Roberts ym Mrynygath – pregethwr a gerddodd yno yn droednoeth ac a wisgai ei hosanau a'i esgidiau wrth y tŷ cyn mynd i mewn i bregethu. Y dydd dilynol, aeth efo Dafydd Rolant i gwrr o Drawsfynydd yn agos i le a alwyd wedyn yn Eden. Yn Caenycefn, Trawsfynydd y llwyr argyhoeddwyd ef ac edrychai ar Dafydd Rolant, Llidiardau fel ei daid, ac ar Dafydd Cadwaladr, Bala fel ei daid yn y ffydd a daethant yn hoff o'i gilydd.

Diddorol iawn yw dilyn hanes odfeuon yr ysguboriau, hyd yr adeg pan aeth Morris Roberts i Gyfarfod Misol Ffestiniog, mis Awst 1818 i dreio ei grefydd. Fe aeth yn droednoeth-goesnoeth o bellterau Cwmyralltlwyd dros y mynyddoedd a thrwy Gwm Prysor i Ffestiniog, lle yr oedd John Peters a Richard Jones o'r Wern yn pregethu.

Wedi hynny ymuno â'r Methodistiaid yn Llanfachreth. Cyrchu o saith i wyth milltir o ffordd o'r fan honno, o Sul i Sul, hyd nes ffurfio cangen eglwys fechan ym Mrynygath, a syrthiodd i ran Morris Roberts i flaenori a gofalu am yr achos yno lle cawsai gyfle ddigon i roddi ei ddoniau siarad yn gyhoeddus ar waith; ac o ymarfer felly daeth yn siaradwr rhwydd ddigon.

**Gosod Trap**

Cael cyfle i brofi ei ddawn fel pregethwr yn Llanfachraeth a Brynygath – digon caled arno yn y dechrau ond wedi iddo ymroddi ei holl egni i'r gwaith o bregethu daeth Morris Roberts, Brynllin i gael ei adnabod fel un o'r pregethwyr mwyaf cymeradwy a gobeithiol a godwyd yn y cylchoedd hynny. Yr oedd swyn yn ei ddawn, gwres yn ei ysbryd a nerth mawr yn ei draddodiad, ac yn ôl Dr Thomas, Lerpwl, 'Nid oedd na Henry Rees na John Jones (Dolwyddelan a Thalsarn), na neb o'i gyfoedion yn fwy poblogaidd nag ef gyda'r werin.' Cafodd ddegau o oedfeuon mawr a gwlithog.

Dechreuodd bregethu Chwefror 1820. Priodi â merch o Ardudwy, Mai 1822. Symud o Frynyllin i Lanarmon Dyffryn Ceiriog i fyw, a thristwch ar ei ôl yn ei hen ardal. Ond – i frysio – bu mewn trafferth oblegid ei olygiadau diwinyddol; a rhai cul eu syniadu mewn ymdrech beunydd i geisio dal y rhai euog. Ond yn aml diangent drwy eu dwylo a hwythau yn hir heb fedru cael dim y gallent gydio ynddo.

Ond o'r diwedd, tybiwyd fod dau wedi eu dal yn hollol, sef John Roberts, Rhosllannerchrugog, a Morris Roberts, Brynllin. Daethpwyd ag achos y ddau frawd ymlaen yn Sasiwn y Bala yn 1828. Ymddiddan â hwy yn fanwl iawn ynglŷn â'u golygiadau ar Brynedigaeth, ond safasent yn gryf ar hen dir y Cyfundeb fel y methid yno a chael dim yn eu herbyn. Dibenodd yr ymdriniaeth yn y Bala mewn gohiriad ar yr achos hyd Sasiwn Caernarfon, a llawer yn ofni'r canlyniadau yno. Yr oedd plaid gyfyng y Cyfundeb fel pe baent yn cael y llaw uchaf ac ofnid fod rhyddid ac ehangder yr efengyl yn y perygl o gael eu colli o'u plith. Ysgrifennodd Mr Thomas Evans o Faesycoed lythyr at yr hen gawr-bregethwr Michael Roberts, Pwllheli, yn achos Robert Roberts a Morris Roberts. Ofnai fod amryw yn y Corff yn gwyro'n drwm i'r ochr honno ac yn ymarfer ymadroddion cyfyng a dueddai i roddi golygiad masnachol a therfynol ar Iawn Crist.

*(Parhad ar dudalen 9)*